

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Canllaw i fusnes cynnar y Cyfarfod Llawn ar ôl etholiad mis Mai 2016

Mai 2016

---

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol â'r Cyfarfodydd Llawn sy'n dilyn etholiad Cynulliad, cyn i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth wneud y datganiad a chyhoeddiad busnes cyntaf.

Mae'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- cyflwyno cwestiynau yn y cyfnod yn syth ar ôl etholiad y Cynulliad;
- y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad;
- ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd;
- enwebu'r Prif Weinidog;
- y busnes y gellir ei drafod yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ac yn y Cyfarfodydd Llawn dilynol;
- y busnes yn dilyn penodi'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth.

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

I gael rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer busnes cynnar, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth y Siambr, sy'n gyfrifol am gynorthwyo busnes y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor Busnes:

5'YX'æbYgfr\$ \$\$&\$\$\*' , (#UYX"cbYg4 Wnulliad.cymru); neu,  
?UH 'A V8cbUX'f\$ '\$\$&\$\$\*' , ) #\_UH "a VxcbUX4 Wbi 'liad.cymru).

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys

<b>A. Y trefniadau ar gyfer cyflwyno cwestiynau ar ôl etholiad y Cynulliad .....</b>	<b>2</b>
<b>B. Hysbysu am gyfarfodydd Llawn cynnar .....</b>	<b>2</b>
<b>C. Y cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad cynulliad .....</b>	<b>2</b>
Ethol y Llywydd .....	2
Canlyniad yr etholiad i benodi'r Llywydd .....	4
Ethol Dirprwy Lywydd .....	4
Trefniadau ar gyfer cynnal pleidlais gyfrinachol .....	4
<b>Ch. Enwebu Prif Weinidog .....</b>	<b>5</b>
Galw cofrestr yr Aelodau .....	6
Canlyniad yr enwebiad.....	6
<b>D. Busnes arall y gellir ei gynnal mewn cyfarfodydd Llawn cyn sefydlu'r</b>	
<b>Pwyllgor Busnes.....</b>	<b>6</b>
<b>Dd. Busnes cynnar dilynol.....</b>	<b>7</b>
Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes.....	7
Penodi Comisiynwyr y Cynulliad .....	7
Penodi'r Cwnsler Cyffredinol .....	7
Strwythur y pwyllgorau .....	8

## A. Y trefniadau ar gyfer cyflwyno cwestiynau ar ôl etholiad y Cynulliad

01. Bydd y Swyddfa Gyflwyno ar agor o ddydd Llun, 9 Mai 2016 ar gyfer cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig, cynigion a datganiadau barn, cofrestru buddiannau, a gosod dogfennau.
02. Yn unol ag adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"), bydd y Prif Weinidog yn aros yn ei swydd nes i'r Prif Weinidog newydd gael ei benodi. Bydd pob cwestiwn ysgrifenedig a gyflwynir i'r Llywodraeth ei ateb ar ôl yr etholiad yn cael ei gyflwyno i'w ateb gan y Prif Weinidog nes y penodir Gweinidogion Cymru. Y dyddiad olaf ar gyfer ateb cwestiynau ysgrifenedig fydd pum niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.
03. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Egwyddorion ac Ymarfer y Swyddfa Gyflwyno ar gyfer Cyflwyno a Gosod Busnes y Cynulliad neu cysylltwch â'r Swyddfa Gyflwyno: Owain Roberts (0300 200 6388/[Owain.Roberts@cynulliad.cymru](mailto:Owain.Roberts@cynulliad.cymru))

## B. Hysbysu am gyfarfodydd Llawn cynnar


04. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.7, deiliad swydd y Llywydd fydd yn pennu dyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad, gan ymgynghori â'r grwpiau gwleidyddol. Os bydd deiliad swydd y Llywydd yn amharod neu'n anabl i wneud hynny, y Clerc fydd yn pennu'r dyddiad a'r amser. Y Llywydd newydd fydd yn pennu dyddiad ac amser pob Cyfarfod Llawn wedi hynny nes i'r Pwyllgor Busnes gael ei sefydlu (a nes i'r [datganiad a chyhoeddiad busnes](#) cyntaf gael ei roi yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth).
05. Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Aelodau i gyd o'r dyddiad a'r amser o leiaf 24 awr cyn pob cyfarfod (Rheol Sefydlog 12.9). Gwneir hyn yn uniongyrchol drwy anfon e-bost; drwy grwpiau'r pleidiau; a thrwy gyhoeddi hysbysiadau a'r [agenda](#) ar y rhyngrwyd.

## C. Y cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad cynulliad

06. Rhaid i'r Cyfarfod Llawn cyntaf ddigwydd o fewn saith niwrnod gwaith i'r etholiad (dydd Llun, 16 Mai 2016), yn unol ag adran 3 o'r Ddeddf. Yn y cyfarfod cyntaf hwn, rhaid i'r Cynulliad ethol ei Lywydd a'i Ddirprwy Lywydd yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf.

### Ethol y Llywydd

07. Nodir y gweithdrefnau ar gyfer ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn Rheol Sefydlog 6. Caiff Aelod nad yw eto wedi tyngu'r llw (nac wedi gwneud y cadarnhad cyfatebol) barhau i gymryd rhan yn y trafodion ar gyfer ethol y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ond nid mewn unrhyw drafodion eraill yn y Cynulliad, yn unol ag adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.
08. Bydd y Llywydd yn cael ei ethol yn gyntaf, ac yna'r Dirprwy Lywydd. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ethol Aelod i'r ddwy swydd yr un fath yn union ac fe'u hamlinellir isod:



## Canlyniad yr etholiad i benodi'r Llywydd

**09.** Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad yr etholiad yn y Siambr. Bydd yr Aelod a etholir i fod yn Llywydd yn tyngu'r llw os nad yw wedi gwneud hynny eisoes, a bydd yn mynd i'r Gadair ar unwaith i gadeirio unrhyw fusnes sy'n weddill ar agenda'r Cyfarfod Llawn, gan gynnwys ethol y Dirprwy Lywydd. Mae'n bosibl hefyd y bydd y Llywydd newydd yn dewis traddodi araith dderbyn.

## Ethol Dirprwy Lywydd

**10.** Bydd y broses o ethol y Dirprwy Lywydd yn dilyn yn syth ar ôl yr etholiad y Llywydd. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.12, ni all y Cynulliad ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd sydd:

- o'r un grŵp gwleidyddol;
- o wahanol grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol; neu
- o wahanol grwpiau gwleidyddol nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol.

**11.** Er hynny, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig i ddatgymhwyso'r rheol hon, cyn ethol y Dirprwy Lywydd (Rheol Sefydlog 6.13). Caniateir gwneud y cynnig heb hysbysiad, ond rhaid i o leiaf ddau o bob tri o'r Aelodau sy'n pleidleisio ei gefnogi.

**12.** Os bydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd a etholir, wedi hynny, yn digwydd dod o fewn un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 10 yn ystod y Cynulliad (heb i'r naill na'r llall ymddiswyddo) gall unrhyw Aelod wneud cynnig yn y Cyfarfod Llawn nesaf y dylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd aros yn eu swyddi. Unwaith eto, rhaid i o leiaf ddau o bob tri o'r Aelodau sy'n pleidleisio gefnogi'r cynnig (Rheol Sefydlog 6.14). Os na wneir, neu os na dderbynnir, cynnig o'r fath, rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ymddiswyddo.

## Trefniadau ar gyfer cynnal pleidlais gyfrinachol


**13.** Os bydd angen cynnal pleidlais gyfrinachol, bydd y Cadeirydd yn gohirio'r cyfarfod (am amser sydd i'w bennu gan y Cadeirydd). Bydd trefniadau'r bleidlais gyfrinachol fel a ganlyn:

- Cynhelir y bleidlais yn Ystafell Friffio 13 yn y Senedd. Bydd y tywyswyr ar gael i roi cyfarwyddiadau i'r Aelodau.
- Bydd ffurflenni pleidleisio yn cael eu hargraffu pan fydd enwau'r ymgeiswyr yn hysbys. Defnyddir lliw gwahanol ar gyfer pob cylch pleidleisio (os oes angen).
- Bydd yr Aelodau yn cael eu papurau pleidleisio wrth fynd i mewn i'r ystafell. Bydd eu henwau'n cael eu croesi oddi ar restr gan swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Siambr.
- Bydd y pleidleisio'n digwydd mewn bwth pleidleisio. Rhoddir y papurau pleidleisio mewn blwch pleidleisio.
- Bydd y pleidleisio'n digwydd nes bydd pob Aelod wedi pleidleisio neu am 30 munud (p'un bynnag sy'n dod gyntaf).
- Clerc y Cynulliad fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses bleidleisio a'r broses o gyfrif y pleidleisiau.

- 14. Os nad oes ond un enwebiad, gofynnir i'r Aelodau bleidleisio o blaid neu yn erbyn yr Aelod a enwebwyd. Os bydd sawl enwebiad, gofynnir i'r Aelodau ddewis yr ymgeisydd y maent yn ei ffafrio. Yn y naill achos a'r llall, caiff yr Aelodau hefyd ymatal rhag pleidleisio.
- 15. Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu a'r naill a'r llall wedi cael nifer gyfartal o bleidleisiau yn y bleidlais gyfrinachol, cynhelir rhagor o bleidleisiau cyfrinachol nes i un ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.
- 16. Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac os na fydd yr un ohonynt yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd, bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu o'r broses. Cynhelir rhagor o bleidleisiau cyfrinachol nes i un ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.

## Ch. Enwebu Prif Weinidog

- 17. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog o fewn 28 diwrnod i etholiad y Cynulliad (erbyn diwedd 1 Mehefin 2016). Nodir y weithdrefn ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog yn Rheol Sefydlog 8.
- 18. Gellir enwebu Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad neu yn ystod unrhyw Gyfarfod Llawn dilynol, ar yr amod bod y Cynulliad yn penderfynu gwneud hynny yn unol â Rheol Sefydlog 12.11. Bydd y Llywydd yn gwahodd y Cynulliad i gytuno y caiff enwebiadau eu gwneud. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gelwir pleidlais electronig. Bydd trafodion enwebu yn digwydd dim ond os bydd mwyafrif yr Aelodau sy'n pleidleisio yn cytuno â hynny.
- 19. Amlinellir y broses ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog isod:



## **Galw cofrestr yr Aelodau**

- 20.** Os bydd angen cynnal pleidlais drwy alw cofrestr, bydd y Llywydd yn gofyn i bob un o'r Aelodau sy'n bresennol (yn nhrefn y wyddor) ddatgan enw'r ymgeisydd y maent yn ei ffafrio. Bydd cyfle i'r Aelodau ymatal rhag pleidleisio hefyd. Ni chaniateir i'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd bleidleisio.
- 21.** Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu a bod y broses o alw cofrestr yn arwain at ganlyniad cyfartal (neu os bydd dau ymgeisydd ar ôl wedi i'r gweddill gael eu tynnu o'r broses), bydd pleidlais drwy alw cofrestr yn digwydd eto. Caiff y Llywydd ohirio'r cyfarfod ar unrhyw adeg os yw'n credu bod hynny'n briodol.
- 22.** Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac os na fydd yr un ohonynt yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd, bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu o'r broses. Cynhelir rhagor o bleidleisiau drwy alw cofrestr nes i un ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.

## **Canlyniad yr enwebiad**

- 23.** Bydd y Llywydd yn argymhell i'w Mawrhydi ar unwaith y dylai'r Aelod a enwebwyd gan y Cynulliad gael ei benodi'n Brif Weinidog. Gwneir hyn drwy anfon e-bost at y Palas ar ran y Llywydd.
- 24.** Mae'n bosibl y bydd y sawl a enwebwyd i'w benodi'n Brif Weinidog yn dymuno traddodi araith yn syth ar ôl yr enwebiad.

## **D. Busnes arall y gellir ei gynnal mewn cyfarfodydd Llawn cyn sefydlu'r Pwyllgor Busnes**

- 25.** Bydd y trefniadau arferol ar gyfer y gweithdrefnau busnes yn ailgychwyn ar ôl i'r Pwyllgor Busnes gael ei sefydlu ac ar ôl i'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes cyntaf gael ei dderbyn. Tan hynny, y Llywydd newydd fydd yn pennu dyddiad ac amser y Cyfarfodydd Llawn, gan ymgynghori â'r grwpiau gwleidyddol (gweler paragraff 4 uchod).
- 26.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.10, a nes i'r datganiad a chyhoeddiad busnes cyntaf gael ei wneud, cyfyngir ar y math o fusnes y gellir ei gynnal yn ystod y Cyfarfodydd Llawn cynnar hyn i unrhyw fusnes y caiff y Cynulliad ei gymeradwyo drwy benderfyniad, neu fusnes y caniateir ei gynnal heb hysbysiad o dan Reol Sefydlog 12.16, gyda chytundeb y Llywydd.
- 27.** Nid yw'r cyfnodau hysbysu arferol ar gyfer cyflwyno cynigion (o leiaf bum niwrnod gwaith cyn iddynt gael eu trafod) a gwelliannau (o leiaf dri diwrnod gwaith cyn trafod y cynnig) yn berthnasol i unrhyw gynigion sydd i'w trafod yn y Cyfarfodydd Llawn hyn (Rheolau Sefydlog 12.20 a 12.22).



# 01.Dd. Busnes cynnar dilynol

## Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes

28. Ar ôl i'r Prif Weinidog benodi Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth, rhaid i'r Gweinidog hwnnw, cyn gynted ag y bo modd, gyflwyno cynnig i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes yn unol â Rheol Sefydlog 11.3. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y **Canllaw i'r Pwyllgor Busnes**.
29. Rhaid i'r cynnig benodi'r Llywydd ac un Aelod a enwebir gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Gall tri neu fwy o Aelodau, nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol, ffurfio grŵp at ddibenion enwebu un o'i aelodau i gael ei benodi i'r Pwyllgor Busnes.
30. Rhaid i'r cynnig gael ei gefnogi gan o leiaf ddau o bob tri o'r Aelodau sy'n pleidleisio. Os na chaiff y cynnig ei dderbyn, rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth gyflwyno cynnig i benderfynu ar faint y Pwyllgor Busnes ac o ba grŵp gwleidyddol y bydd y cadeirydd yn cael ei benodi.
31. Rhaid i'r lleoedd ar y pwyllgor gael eu neilltuo i grwpiau gwleidyddol gan adlewyrchu eu cynrychiolaeth gyffredinol yn y Cynulliad, yn unol ag adrannau 29(3) i (7) o'r Ddeddf. Bydd pob grŵp gwleidyddol yn penderfynu pa Aelod/Aelodau o'i grŵp sydd i'w neilltuo.
32. Bydd trefniadau arferol y gweithdrefnau busnes yn ailddechrau ar ôl i'r Cynulliad gytuno ar aelodau'r Pwyllgor Busnes ac ar ôl i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth wneud y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes cyntaf. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y **Canllaw i'r Cyfarfod Llawn**.

## Penodi Comisiynwyr y Cynulliad

33. Yn unol â Rheol Sefydlog 7.1, rhaid ystyried cynnig i benodi Comisiynwyr y Cynulliad ddim hwyrach na 10 niwrnod ar ôl penodi aelodau'r Pwyllgor Busnes.
34. Rhaid i'r cynnig awgrymu enwau'r pedwar Aelod sydd i'w penodi'n aelodau o'r Comisiwn. I'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, dylai pob Aelod a benodir (ar wahân i'r Llywydd) fod yn perthyn i grŵp gwleidyddol gwahanol.
35. Os oes pedwar neu fwy o grwpiau gwleidyddol, rhaid i'r pedwar grŵp mwyaf hysbysu'r Pwyllgor Busnes pa Aelod o'u grwpiau a gaiff ei benodi i fod yn aelod o'r Comisiwn. Os oes llai na phedwar grŵp gwleidyddol, y Pwyllgor Busnes fydd yn penderfynu ar enw/enwau unrhyw Aelod/Aelodau ychwanegol. Os bydd gan ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol yr un nifer o aelodau, rhaid i'r Llywydd benderfynu pa un ohonynt sydd i'w ystyried fel yr un mwyaf, gan ystyried lefel y gefnogaeth etholiadol sydd gan bob un o'r grwpiau gwleidyddol dan sylw.

## Penodi'r Cwnsler Cyffredinol

36. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.1, rhaid gwahodd y Cynulliad i gymeradwyo'r sawl a argymhellir gan y Prif Weinidog i'w Mawrhydi i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol. Nid oes rhaid i'r sawl a argymhellir i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol fod yn Aelod Cynulliad. Rhaid

i'r Prif Weinidog gyflwyno a gwneud y cynnig yn y Cyfarfod Llawn; ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i'r cynnig hwn.

- 37.** Bydd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gwahodd y Cynulliad i dderbyn y cynnig. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gelwir pleidlais electronig. Yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf, ni chaiff y Prif Weinidog argymhell rhywun i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol heb gymeradwyaeth y Cynulliad (h.y. mwyafrif yr Aelodau sy'n pleidleisio).

### **Strwythur y pwyllgorau**

- 38.** Cyn gynted ag y bo modd ar ôl etholiad y Cynulliad, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig neu gynigion yn awgrymu enwau a chylch gorchwyl y pwyllgorau, yn unol â Rheol Sefydlog 16.2. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau:

- (i) bod pob un o feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau;
- (ii) bod pob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau; a
- (iii) bod cydbwysedd cyffredinol, pan fo hynny'n rhesymol ymarferol, rhwng gweithredu'r cyfrifoldebau i:
  - a) archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig; a
  - b) archwilio deddfwriaeth.

- 39.** Ar ôl cytuno ar strwythur y pwyllgorau, rhaid i'r Cynulliad hefyd ystyried cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodau a chadeirydd pob pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3.